

Briffiadau Addysg NFER

# Cipolygon allweddol o PISA 2015 ar gyfer gwledydd y DU

## Beth yw PISA?

Mae'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn brosiect ymchwil byd-eang sy'n cynnwys ysgolion a disgyblion mewn dros 70 o wledydd[1]. Caiff ei gynnal gan OECD[2] ac mae'n digwydd bob tair blynedd.

Mae PISA wedi'i gynllunio i archwilio sut y gall pobl ifanc 15 oed gymhwyso'r hyn y maen nhw wedi'i ddysgu yn yr ysgol mewn bywyd go iawn. Gofynnir i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhesymu, dehongli a datrys problemau yn hytrach na chofio ffeithiau yn unig. Arolwg 2015 oedd y cyntaf i'w gynnal yn gyfan gwbl ar gyfrifiadur yn y DU.

Mae gan bob cylch PISA ffocws gwahanol. Prif ffocws PISA 2015 oedd gwyddoniaeth, ond roedd hefyd yn cynnwys cwestiynau ar fathemateg, darllen a datrys problemau ar y cyd. Mae PISA hefyd yn casglu gwybodaeth gefndir helaeth am amgylcheddau cartref a dysgu disgyblion, a nifer, ansawdd a chynnwys yr addysgu. Gall y wybodaeth hon roi cipolygon pwerus ar ba mor dda mae systemau addysg yn gweithredu, a sut i wella addysgu a dysgu i ddisgyblion o gwmpas y byd.

1Bydd arolwg 2018 yn cynnwys 82 o wledydd.

2Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)



# Beth all PISA ddweud wrthym am wyddoniaeth, darllen a mathemateg yn y DU?

## A yw cyflawniad mewn gwyddoniaeth, darllen a mathemateg wedi newid dros amser?

Nid yw edrych yn unig ar a yw'r sgôr ar gyfer gwyddoniaeth, mathemateg neu ddarllen yn uwch neu'n is na mewn cylch PISA blaenorol yn dweud wrthym yn gywir a yw cyflawniad wedi gwella, a yw'n sefydlog neu a yw'n dirywio. Mae'n hanfodol ystyried a yw sgôr yn arwyddocaol wahanol yn ystadegol - mewn geiriau eraill, nad yw'r gwahaniaethau hyn wedi digwydd ar hap yn unig. Yn 2015, sgôr Gogledd Iwerddon ar gyfer mathemateg oedd 493 ac yn 2012 roedd yn 487. Er bod y sgôr wedi cynyddu, canfu'r dadansoddiad rhyngwladol fod Gogledd Iwerddon mewn gwirionedd wedi cynnal lefel gyfartal o berfformiad.



## Sut mae cyflawniad yn cymharu rhwng gwledydd?

Mae'n demtasiwn canolbwyntio ar 'safleoedd' wrth gymharu cyrhaeddiad rhwng gwledydd. Fodd bynnag, gall 'safleoedd' fod yn gamarweiniol oherwydd efallai na fydd gwahaniaethau bach mewn sgoriau yn ystadegol arwyddocaol. Er enghraifft, ar gyfer mathemateg, er bod Lloegr yn gorwedd pum safle yn uwch yn y 'safleoedd' rhyngwladol na'r Alban, nid yw eu sgoriau mewn gwirionedd yn arwyddocaol wahanol.

Rheswm arall dros beidio â dibynnu ar 'safleoedd' wrth gymharu perfformiad ar draws gwledydd yw y gall 'safleoedd' fod yn gyfnewidiol, yn amrywio yn ôl y gymysgedd o wledydd sy'n cymryd rhan mewn unrhyw gylch penodol. Nid yw safle un wlad mewn perthynas â gwledydd eraill yn seiliedig ar ei pherfformiad ei hun yn unig. Mae hefyd yn cael ei ddylanwadu gan ba wledydd sy'n cymryd rhan ac a yw eu perfformiad wedi newid ers y cylch diwethaf o PISA. Er enghraifft, er gwaethaf na wnaeth sgôr mathemateg yr Alban yn 2015 amrywio'n sylweddol o 2012, roedd pedair gwlad arall wedi perfformio'n well na hi.





## Sut mae cyflawniad yn amrywio o fewn gwledydd?

Nid yw sgôr gyfartalog gwlad mewn gwyddoniaeth, darllen neu fathemateg yn y profion PISA yn dweud popeth wrthym y gallai fod angen i ni ei wybod. Yn ogystal â gwybod pa mor dda mae disgyblion yn y DU yn perfformio'n gyffredinol, mae hefyd yn bwysig, at ddibenion dysgu ac addysgu, i archwilio'r lledaeniad mewn perfformiad rhwng y cyflawnwyr uchaf a'r isaf.

Mae PISA yn darparu data ar ledaeniad cyflawniad mewn dwy ffordd: y gyfran o ddisgyblion yn cyflawni 'lefelau hyfedredd' penodol, a'r gwahaniaeth rhwng sgoriau uchaf ac isaf gwlad. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gan wlad sy'n cyflawni'n uchel ledaeniad cyflawniad eang iawn, tra bod gan wlad â chyrhaeddiad cyfartalog lai o ddisgyblion o dan y lefelau hyfedredd isaf.

## Pa nodweddion sy'n gysylltiedig â chyflawniad?

Mae PISA hefyd yn darparu gwybodaeth gyd-destunol fanwl am systemau addysg, ysgolion, athrawon a disgyblion a'u cartrefi, ac yn archwilio'r berthynas rhwng y nodweddion hyn a chyflawniad. Gall y wybodaeth hon helpu gwledydd i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ar agweddau o'u polisi addysg eu hunain y gallent eu hadolygu a'u haddasu.

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r data o PISA yn unig yn darparu fformiwla hud ar gyfer newidiadau polisi a fydd yn gwella cyflawniad. Er enghraifft, ni all ddweud wrthym ni a yw perfformiad uchel gwledydd megis Singapore neu Japan yn ganlyniad uniongyrchol o'r arferion addysgu penodol y maen nhw'n eu mabwysiadu, neu a yw oherwydd agweddau eraill ar yr amgylchedd dysgu (neu'r amgylchedd ehangach). Felly mae'n bwysig i ystyried PISA ochr yn ochr â ffynonellau eraill o dystiolaeth.




Mae PISA hefyd yn darparu gwybodaeth gyd-destunol fanwl am systemau addysg, ysgolion, athrawon a disgyblion a'u cartrefi, ac yn archwilio'r berthynas rhwng y nodweddion hyn a chyflawniad.

# Sut mae'r canlyniadau'n cymharu yn y DU?



## Gwyddoniaeth

- Cyflawnodd disgyblion yn Lloegr sgoriau llawer uwch ar gyfartaledd mewn gwyddoniaeth na'r tair gwlad arall, tra'r oedd y sgoriau yng Nghymru yn sylweddol is.
- Gwelir patrwm tebyg wrth ganolbwyntio ar y perfformwyr uchaf ac isaf. Os yw disgyblion yn cyrraedd Lefel 5 neu 6, maen nhw'n cael eu hystyried yn y rhai sy'n perfformio orau. Lloegr oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion sy'n perfformio'n dda (12 y cant), ac wedyn yr Alban (wyth y cant), Gogledd Iwerddon (saith y cant) a Chymru (pump y cent). Roedd gan Loegr y ganran isaf hefyd (17 y cant) o ddisgyblion sy'n perfformio'n isel - y rhai nad ydynt yn cyrraedd Lefel 2 - ac yna Gogledd Iwerddon (18 y cant), Yr Alban (20 y cant) a Chymru (22 y cant).
- Yng Nghymru gwelwyd y gwahaniaeth lleiaf rhwng sgoriau cymedrig y cyflawnwyr uchaf ac isaf, ac yna Gogledd Iwerddon a'r Alban. Lloegr oedd â'r bwlch mwyaf, sy'n gyfwerth â bron naw mlynedd o addysg. Nid oedd bwlch arwyddocaol o ran rhyw yn y perfformiad mewn gwyddoniaeth ar gyfer unrhyw un o'r pedair gwlad.
- Gan mai 2006 oedd y tro diwethaf yr oedd gwyddoniaeth yn ffocws i PISA, mae'n ddefnyddiol gweld sut mae'r sgoriau cymedrig yn wahanol ar draws y ddau arolwg hyn. Ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon, nid yw'r perfformiad gwyddoniaeth cymedrig wedi newid yn sylweddol. Ar gyfer yr Alban a Chymru, mae'r gostyngiad mewn cyflawniad gwyddoniaeth ers 2006 yn gyfwerth ag oddeutu wyth mis o addysg.




**Lloegr oedd â'r sgôr uchaf gwyddoniaeth gyfartalog uchaf o unrhyw wlad yn y DU**





**Mae sgoriau cyfartalog mewn gwyddoniaeth wedi gostwng yn sylweddol yn yr Alban a Chymru ers 2006**




## Mathemateg

- Ar gyfartaledd, roedd gan ddisgyblion yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban sgoriau cyflawniad mewn mathemateg oedd yn agos at gyfartaledd yr OECD. Sgoriodd disgyblion yng Nghymru'n sylweddol is.
- Lloegr oedd â'r ganran uchaf o'r disgyblion oedd yn perfformio orau (11 y cant), ac yna Yr Alban (naw y cant), Gogledd Iwerddon (saith y cant) a Chymru (pump y cant). Fodd bynnag, yn Lloegr, nid oedd 22 y cant o ddisgyblion wedi cyrraedd y gallu gwaelodlin mewn mathemateg (Lefel 2) ac roedd gan y disgyblion oedd yn perfformio'n isel sgôr gyfartalog is mewn mathemateg nag mewn mannau eraill yn y DU. Y ganran nad oeddent yn cyrraedd Lefel 2 oedd 19 y cant yng Ngogledd Iwerddon, 20 y cant yn yr Alban a 23 y cant yng Nghymru.
- Cymru oedd â'r gwahaniaeth lleiaf rhwng sgoriau cymedrig y cyflawnwyr uchaf ac isaf mewn mathemateg, ac yna Gogledd Iwerddon a'r Alban. Lloegr oedd â'r bwlch mwyaf, yn gyfwerth ag oddeutu wyth mlynedd o addysg. Roedd yna fwlch sylweddol o ran rhyw hefyd yng Nghymru a Lloegr, lle roedd y bechgyn yn perfformio'n well mewn mathemateg na'r merched. Ni welwyd hyn yng Ngogledd Iwerddon neu'r Alban.
- Mae sgoriau mathemateg wedi parhau'n sefydlog ar gyfer holl wledydd y DU ers 2012, pan oedd mathemateg yn ffocws i PISA.





**Mae gan Loegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban gyflawniad cyfartalog tebyg mewn mathemateg i gyfartaledd OECD**




**Mae cyflawniad mewn mathemateg wedi aros yn sefydlog yn yr holl wledydd ers 2012**

## Darllen

- Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng sgoriau darllen cyfartalog yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, ond cafodd y tair gwlad sgoriau sylweddol uwch na Chymru.
- Lloegr oedd â'r sgôr darllen cyfartalog uchaf ymysg y perfformwyr gorau (y rhai oedd yn cyrraedd Lefel 5 neu 6), ac yna yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru yn y drefn honno. Yn Lloegr, roedd deg y cant o'r disgyblion yn berfformwyr gorau. Yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, cyrhaeddodd chwech y cant y meincnod hwn, ac yna pedwar y cant yng Nghymru. Fodd bynnag, ymhlith y perfformwyr isel, yn Lloegr, ni wnaeth 18 y cant o ddisgyblion gyrraedd y gallu gwaelodlin (Lefel 2), mewn darllen. Roedd y ffigur hwn yn is yng Ngogledd Iwerddon, sef 15 y cant, ac ar gyfer Yr Alban a Chymru roedd yn 18 y cant a 21 y cant yn y drefn honno.
- Yng Nghymru cafwyd y gwahaniaeth lleiaf rhwng sgoriau'r cyflawnwyr uchel a'r cyflawnwyr isel, wedi'i ddilyn gan Ogledd Iwerddon a'r Alban. Yn Lloegr, cafwyd y gwahaniaeth mwyaf, yn gyfwerth â thros wyth mlynedd o addysg. Ar draws pob gwlad yn y DU, mae bwlch rhyw mewn darllen o blaid merched. Roedd y bwlch hwn yn is yng Nghymru na gwledydd eraill y DU.
- Ni fu newid arwyddocaol mewn perfformiad mewn darllen ar draws pedair gwlad y DU ers y tro diwethaf roedd darllen yn ffocws i PISA (2009). Fodd bynnag, bu gostyngiad ym mherfformiad yr Alban ers 2012.




**Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn sgoriau cyflawniad mewn darllen ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon**




**Nid oes unrhyw newid sylweddol yn y sgoriau cyflawniad, ar gyfer unrhyw wlad y DU ers yr oedd ffocws PISA ar ddarllen**

## Disgyblion dan anfantais

- Mae PISA yn archwilio effaith statws economaidd-gymdeithasol (SEG) ar berfformiad. Lloegr sydd â'r bwlch mwyaf rhwng perfformiad cyfartalog disgyblion â SEG uchel ac isel, a Chymru sydd â'r bwlch lleiaf (yn ogystal â meddu ar y sgôr SEG cyfartalog isaf o'r pedair gwlad). At hynny, mae'r berthynas rhwng SEG a chanlyniadau yn wannaf yng Nghymru, sy'n golygu mai ond i raddau bach y gellir esbonio gwahaniaethau rhwng disgyblion perfformiad uchel ac isel o ganlyniad i wahaniaethau mewn statws economaidd-gymdeithasol disgyblion - mae ffactorau eraill hefyd yn dylanwadu ar y sefyllfa.
- Mae gan Loegr gyfran uwch o ddisgyblion gwydn, a ddiffinnir gan OECD fel rhai sydd â statws economaidd-gymdeithasol isel ond yn cyflawni sgoriau cyflawniad uchel, na Gogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban yn y drefn honno.

## Gwyddoniaeth yn y dyfodol

- Disgyblion yn Lloegr a Chymru oedd â'r hyder mwyaf yn eu gallu i gyflawni nodau mewn gwyddoniaeth o'i gymharu â Gogledd Iwerddon a'r Alban
- Roedd disgyblion yng Nghymru yn fwy tebygol o adrodd eu bod am weithio mewn gwyddoniaeth yn y dyfodol, wedi'i dilyn gan Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno. Ar draws pob gwlad oedd yn cymryd rhan yn PISA 2015, mae'r dyhead hwn yw yn gysylltiedig i raddau mawr â chyflawniad mewn gwyddoniaeth.

## Amgylchedd yr Ysgol


- Roedd penaethiaid yn Lloegr a'r Alban yn fwy tebygol o adrodd am ddiffyg staff addysgu fel pryder yn eu hysgol, mwy o benaethiaid nag yng Ngogledd Iwerddon a Chymru.
- Roedd penaethiaid yn Lloegr a Chymru yn dweud yn amlach bod problem gydag athrawon anfoddhaol neu athrawon heb y cymwysterau priodol nag yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd bron i hanner y penaethiaid yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a Chymru yn sôn am broblemau gyda diffyg seilwaith ffisegol a deunydd addysgol anfoddhaol neu wael o ran safon. Roedd tua un o bob pedwar pennaeth yn yr Alban yn adrodd am hyn.
- Roedd penaethiaid yng Ngogledd Iwerddon a Chymru yn llawer llai tebygol o adrodd bod dysgu yn cael ei rwystro gan athrawon nad ydynt yn cwrdd ag anghenion unigolion nag yn yr Alban a Lloegr. Roedd mwy o benaethiaid yng Nghymru yn sôn nad oedd athrawon wedi paratoi'n dda ar gyfer dosbarthiadau fel rhwystr i ddisgyblion yn dysgu nag yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.




## Pam mae'r canlyniadau yn amrywio ar draws y DU?

Mae'r wybodaeth gefndir fanwl a ddarperir gan PISA, er enghraifft ar ysgolion ac athrawon, yn ei gwneud hi'n bosibl datblygu damcaniaethau am achosion uniongyrchol y gwahaniaethau yn y deilliannau a arsylwyd. Fodd bynnag, mae yna hefyd wahaniaethau pwysig yng nghyd-destun cymdeithasol ehangach pob gwlad, y systemau addysg sydd ganddynt yn eu lle, a'r polisïau a ddilynwyd dros oes carfan PISA 2015.

## GYC = gwerth a ychwanegwyd crynswth y pen[4]





## Plant sy'n byw mewn cartrefi di-waith[5]





## Plant sy'n byw mewn cartrefi ag incwm cymharol isel (60% yn is na'r canolrif), cyn costau tai[6]




## Disgyblion sy'n ymfudwyr[7]





*Newydd-ddyfodiaid

# Cyd-destun cymdeithasol a system

**Strwythurau ysgol**

**Cwricwlwm ac asesu**



Dim academïau nac ysgolion am ddim. 49% o'r disgyblion ôl gynradd mewn ysgolion gramadeg a dethol ar sail academaidd yn chwarae rhan flaenllaw yn sector ysgolion gramadeg Gogledd Iwerddon. Ysgolion wedi'u trefnu'n bennaf-yn ôl cefndir cymunedol.

Cwricwlwm Gogledd Iwerddon o bedair thema, gyda Chyfnodau Allweddol, wedi esblygu o Ddeddfau 1988/1999, gyda'r ysgol yn cael penderfynu'n annibynnol ar sut i'w cyflawni. Angen asesiad athrawon ar ddiwedd pob Cyfnod Allweddol, ac un set o brofion gorfodol mewn TGAU, gyda sawl corff dyfarnu.

Ysgolion cyfun mewn cymunedau, dim academïau, ysgolion am ddim neu ddethol.

System sylweddol wahanol i'r tair gwlad arall, nid yw'n rhan o Ddeddf 1988, dim TGAU neu Safon U. Llai o brofi yn gyffredinol, dim ond un set orfodol o Gymwysterau Cenedlaethol (er bod Asesiadau Safonol Cenedlaethol newydd bellach yn cael eu datblygu), ac un corff dyfarnu.

Pwyslais ar ddewis rhieni ac amrywiaeth o ran ysgolion. Academïau (gan gynnwys ysgolion am ddim) yn cynrychioli 21% o ysgolion cynradd a 67% o ysgolion uwchradd. Dethol cyfyngedig yn ôl gallu.

Cwricwlwm Cenedlaethol a Chyfnodau Allweddol wedi esblygu o Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Pedair set o brofion gorfodol (tair set o brofion cwricwlwm cenedlaethol a TGAU). Sawl corff dyfarnu ar gyfer cymwysterau, ffocws diweddar ar bynciau academaidd.

Ysgolion cyfun mewn cymunedau, dim academïau, ysgolion am ddim neu ddethol. Pedwar o gonsortia rhanbarthol o awdurdodau lleol â'r dasg o wella ysgolion.

Cwricwlwm Cenedlaethol â phedwar Cyfnod Allweddol ac arholiadau, wedi esblygu o Ddeddf 1988, gyda ffocws diweddar ar lythrennedd a rhifedd. Naw set o brofion gorfodol (wyth Prawf Darllen a Rhifedd Cenedlaethol yn ogystal â TGAU, gyda sawl corff dyfarnu).

[3] ONS Statistical bulletin: Population Estimates for UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: mid-2015

[4] ONS statistical bulletin: Regional Gross Value Added (Income Approach): December 2015, Table 1.

[5] ONS Statistical bulletin: Workless households for regions across the UK, Table 3: 2015'

[6] Households below average income: 1994/95 to 2013/14' Table 4.6db: 2013/14 (cyfartaledd 3 blynedd)

[7] OECD PISA 2015

**1998**

Datganoli addysg

–

Datganoli addysg

**Etholiad cyntaf Cynulliad Gogledd Iwerddon, DUP a UUP yw'r ddwy blaid fwyaf**

**1999**

**Etholiad cyntaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, clymblaid Llafur-Democratiaid Rhyddfrydol**

–

**Etholiad cyntaf Senedd yr Alban, clymblaid Llafur-Democratiaid Rhyddfrydol**

–

Cyflwyno canolfannau plant Cychwyn Cadarn

**2000**

Cyhoeddi'r academïau cyntaf

Sefydlu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol

**2001**

Dileu tablau cynghrair ysgolion

–

Dileu tablau cynghrair ysgolion

–

**Ail-ethol y Llywodraeth Lafur**

**2002**

Trafodaeth Genedlaethol yn ymgynghori â 20,000 o bobl ar ddiwygio'r system ysgolion

–

Sefydlu Cyngor Addysgu Cyffredinol Gogledd Iwerddon

–

Teach First yn lansio yn Llundain

**2003**

Cyhoeddi Cyfnod Sylfaen seiliedig ar y plentyn

Cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

**Etholiad y Cynulliad, Llywodraeth Lafur leiafrifol**

–

**Etholiad Seneddol, ailethol clymblaid Llafur-Democratiaid Rhyddfrydol**

–

Adroddiad Costello yn argymell dod â dethol academaidd i ben

**Etholiad y Cynulliad, DUP a UUP yw'r ddwy blaid fwyaf**

–

Lansio Her Llundain

**2004**

Mae Pob Plentyn yn Bwysig yn dod yn gyfraith, gan ganolbwyntio ar bum canlyniad allweddol

Cyhoeddi Adolygiad Daugherty, asesiadau athrawon yn disodli profion TASau

–

Dechrau'r rhaglen gwella ysgolion 'Ambitious, Excellent Schools'

–

Mae Pob Plentyn yn Bwysig yn dod yn gyfraith, gan ganolbwyntio ar bum canlyniad allweddol

**2005**

**Ail-ethol y Llywodraeth Lafur**

**2006**

**2007**

Dyfarnu pwerau deddfu sylfaenol cyfyngedig (Mesurau'r Cynulliad)

**Etholiad y Cynulliad, llywodraeth glymblaid Llafur-Plaid Cymru**

–

**Etholiad Seneddol, SNP yn ffurfio llywodraeth leiafrifol**

–

**Etholiad y Cynulliad, DUP a Sinn Féin yw'r ddwy blaid fwyaf**

Cwricwlwm newydd yn dechrau, gan gynnwys adeiladu gwyddoniaeth i mewn i faes dysgu ehangach 'Y Byd o'n Cwmpas'

| Oedran y garfan | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Datblygiadau polisi dethol

- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru

### 2008

Y Cyfnod Sylfaen yn cael ei gyflwyno i bob ysgol

–

Y profion dethol academaidd olaf dan nawdd y wladwriaeth, profion dilynol gan ysgolion gramadeg uwchradd heb eu rheoleiddio

–

Cyhoeddi dileu profion Cyfnod Allweddol 3, i ddod i rym o 2009

### 2009

Cyflwyno polisi gwella ysgolion 'Every School a Good School'

–

Cyhoeddi dileu profion gwyddoniaeth Cyfnod Allweddol 2, i ddod i rym yn 2010

### 2010

Cyflwyno'r Curriculum for Excellence, yn cynnwys pedwar pwnc (Iechyd a llesiant, Llythrennedd a Rhifedd), pedwar gallu, dysgu seiliedig ar bynciau, lefelau ac arholiadau newydd

–

Cyhoeddi Bagloriaeth Lloegr

Cyflymu cyflwyno academïau

**Llywodraeth Glymblaid Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol**

### 2011

**Etholiad y Cynulliad, Llywodraeth Lafur leiafrifol**

Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn beirniadu rhai diwygiadau e.e. dim profion medrau diagnostig BI 5

–

**Etholiad Seneddol, Llywodraeth SNP fwyafrifol**

–

**Etholiad Cynulliad, DUP a Sinn Féin yn parhau fel y ddwy blaid fwyaf**

–

Cyflwyno fframwaith Ofsted newydd, yn canolbwyntio ar gyflawniad

Cyflwyno Premiwm Disgyblion a'r Sefydliad Gwaddol Addysg

### 2012

Cyhoeddi'r strategaeth 'Gwella Ysgolion'

–

Dyfarnu annibyniaeth ar y Llywodraeth i Gyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban

–

'Delivering Social Change Signature Programme' yn canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd ac amddifadedd

–

Cyflwyno llwybr Schools Direct i mewn i addysgu

Dileu'r Cyngor Addysgu Cyffredinol

### 2013

Strategaeth 'Together: Building a United Community' yn canolbwyntio ar rannu mentrau addysg a thraws-gymunedol

–

Cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, gyda phrofion blynyddol i Flynyddoedd 2-9

### 2014

Cyhoeddi cynllun gwella addysg 'Cymwys am Oes'

Adolygiad OECD o addysg yng Nghymru yn argymell cydbwysedd o asesiadau ffurfiannol a chyfunol

–

Cyhoeddi Cronfa Access to Education i ddysgwyr dan anfantais

–

Pum bwrdd yn cyfuno yn un Awdurdod Addysg

Cyllid wedi'i dargedu'n fwy ar angen cymdeithasol

–

Tâl seiliedig ar berfformiad i athrawon yn dechrau

### 2015

| 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | PISA 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Pwy sy'n cymryd rhan?

Roedd PISA 2015 yn cynnwys 74 o wledydd/awdurdodaethau oedd yn cymryd rhan. Mae cyfranogwyr PISA 2015 yn amrywio o wledydd neu ranbarthau incwm uchel hyd at rai incwm isel a chanolig. Mae eu systemau addysg hefyd yn amrywio, ac yn wahanol er enghraifft yn ôl yr oedran y mae plant yn dechrau yn yr ysgol.



Brasil
**Canada**
**Chile**
Colombia
Costa Rica
Gweriniaeth Dominicaidd
**Mecsico**
Periw
Trinidad a Thobago
**Unol Daleithiau**
Uruguay
Yr Ariannin

Algeria
Twnisia

Emiraethau Arabaidd Unedig
**Israel**
Jordan
Libanus
Qatar

Albania
**Awstria**
Bwlgaria
Croatia
Cyn Weriniaeth Iwgoslafia Macedonia
**Cyprus**
**Denmarc**
**Estonia**
Ffederasiwn Rwsiaidd
**Ffrainc**
Georgia
**Gweriniaeth Iwerddon**
**Gweriniaeth Tsiec**
**Gwlad Belg**
**Gwlad Groeg**
**Gwlad Pwyl**
**Gwlad yr Iâ**
**Hwngari**
Kazakhstan
Kosovo
Latfia
Lithwania
**Lwcsembwrg**
Malta
Moldova
Montenegro
**Norwy**
**Portiwgal**
Rwmania
**Sbaen**
**Slofenia**
**Sweden**
**Twrci**
**Y Deyrnas Unedig**
**Y Ffindir**
**Y Swistir**
**Y Weriniaeth Slofacaidd**
**Yr Almaen**
**Yr Eidal**
**Yr Iseldiroedd**

**Awstralia**
B-S-J-G (Tsieina)*
Fiet-nam
Gwlad Thai
HongKong-Tsieina
Indonesia
**Japan**
**Korea**
Macao-Tsieina
Malaysia
**Seland Newydd**
Singapore
Taipei Tsieineaidd

*Mae B-S-J-G (Tsieina) yn cyfeirio at y pedair talaith yn Tsieina sy'n cymryd rhan yn PISA: Beijing, Shanghai, Jiangsu, Guangdong.
Mae testun mewn print trwm yn dynodi gwledydd OECD.

Mae gan NFER hanes hir o gymryd rhan mewn asesiadau rhyngwladol ar raddfa fawr sy'n dyddio yn ôl dros hanner can mlynedd. Rydym wedi darparu PISA i ysgolion y DU ers 2006. Am ragor o wybodaeth gweler: www.nfer.ac.uk/international. Mae adroddiad PISA 2015 y DU ar gael yma: www.nfer.ac.uk/pisa/pisa-research



© NFER 2016 | ISBN 978-1-911039-34-1